03/04/2020

Annwyl Bennaeth y Ganolfan

Yn dilyn cyhoeddiad Gweinidog Addysg Cymru i gau ysgolion a chanslo cyfres arholiadau haf 2020 i helpu i frwydro lledaeniad y coronafeirws (COVID-19), rydym wedi gweithio i ddatblygu proses sy'n cydnabod gwaith dysgwyr yn deg ac yn sicrhau eu bod yn cael eu graddau mewn pryd i symud ymlaen. Ysgrifennaf atoch i nodi'r hyn y bydd angen i chi ei wneud er mwyn gallu dyfarnu graddau TGAU, Safon UG a Safon Uwch, a'r Dystysgrif Her Sgiliau (SCC) yr haf hwn.

Ar gyfer dyfarniadau'r haf hwn, gofynnir i ysgolion, colegau a chanolfannau arholi eraill ddarparu trefn restrol a graddau asesu'r ganolfan ar gyfer eu dysgwyr. Dylai'r rhain fod yn ystyriaethau teg, gwrthrychol a gofalus o'r graddau y mae'r canolfannau'n credu y byddai eu dysgwyr wedi bod yn fwyaf tebygol o'u cael pe baent wedi sefyll eu harholiadau, gan ystyried yr ystod lawn o dystiolaeth sydd ar gael.

Mae hyn yn beth anarferol i ofyn i chi ei wneud, ond mae'r amgylchiadau unigryw yn golygu bod rhaid cymryd camau anghyffredin. Rydym yn cydnabod bod hwn yn waith ychwanegol ac yn broses nad yw canolfannau wedi arfer â hi, ond mae angen i ni gydweithio i sicrhau nad yw dysgwyr o dan anfantais a bod modd dyfarnu graddau iddynt yr haf hwn. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd y gofyniad i ddarparu trefn restrol ar gyfer dysgwyr yn heriol. Yr hyn sy'n bwysig i bob un ohonom yw bod dysgwyr ledled Cymru'n cael eu trin yn y ffordd decaf bosibl. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda chyd-reoleiddwyr ledled y DU i sicrhau bod cysondeb yn y dull cyffredinol a gymerir yr haf hwn. Mae'r trefniadau rydym yn eu rhoi ar waith yn debyg iawn i'r rhai a sefydlwyd gan Ofqual yn Lloegr. Mae'r un gofynion i ddarparu trefn restrol a graddau asesu canolfannau yn cael eu gosod ar ysgolion, colegau a chanolfannau asesu erail yn Lloegr.

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.qualificationswales.org

Trefn restrol a graddau asesu canolfannau

Ni fydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yn gynharach na 29 Mai 2020, a bydd CBAC yn cysylltu â chi ar ôl y Pasg gyda chyfarwyddiadau manwl ar sut i gyflwyno'r canlynol:

• Gradd asesu'r ganolfan ar gyfer pob dysgwr a gofrestrwyd ar gyfer pob cymhwyster.

Dylai hyn gynrychioli'r radd y byddent wedi bod yn fwyaf tebygol o'i chyflawni, yn eich barn chi, pe baen nhw wedi sefyll eu harholiadau.

• Trefn restrol dysgwyr o fewn pob gradd.

Er enghraifft, ar gyfer pob un o'r dysgwyr hynny sydd â gradd B mewn mathemateg TGAU, trefn restrol lle mai 1 yw'r dysgwr mwyaf sicr o'i radd/sy'n ennill y graddau uchaf, ac yn y blaen.

• Datganiad gennych chi, fel Pennaeth y Ganolfan, neu ddirprwy fel y disgrifir yn y canllawiau.

Bydd angen i bob un o'r tair cydran y gofynnir amdanynt gael eu darparu er mwyn dyfarnu'r graddau.

Ymgeiswyr allanol neu breifat

Gallwch gyflwyno graddau asesu'r ganolfan ar gyfer unrhyw ddysgwr allanol neu breifat yr ydych wedi gweld digon o dystiolaeth o gyflawniad i lunio barn ar ei gyfer; a'i gynnwys yn eich trefn restrol.

Yn anffodus, rydym yn cydnabod na fydd hyn yn bosibl ar gyfer pob ymgeisydd allanol. Dylech gyfleu eich penderfyniad i unrhyw ymgeiswyr allanol a chymryd cyngor gan CBAC lle nad yw achosion yn syml. Os oedd dysgwyr yn bwriadu symud ymlaen i astudio ymhellach, efallai y byddai eu darpar goleg neu brifysgol yn barod i gadarnhau eu lle heb y graddau ar hyn o bryd, o gofio'r amgylchiadau eithriadol.

Rydym yn parhau i archwilio opsiynau ar gyfer y dysgwyr hynny lle na all canolfannau arholi gyflwyno gradd ac y mae arnynt angen canlyniadau at ddibenion symud ymlaen. Os nad oes opsiynau eraill ar gael, bydd dysgwyr yn cael cyfle i sefyll arholiadau yn haf 2021 (neu fis Tachwedd 2020 ar gyfer TGAU mewn Saesneg Iaith, Cymraeg Iaith, Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd).

Safoni graddau

Er mwyn sicrhau bod graddau'n deg rhwng canolfannau, bydd CBAC yn rhoi holl raddau asesu canolfannau drwy broses safoni gan ddefnyddio model sy'n cael ei ddatblygu ar y cyd gennym ni a CBAC ar hyn o bryd. Rydym yn disgwyl y bydd yn edrych ar dystiolaeth fel y canlyniadau cenedlaethol disgwyliedig ar gyfer dysgwyr eleni, cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr a chanlyniadau'r ganolfan yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n annhebygol o newid trefn restrol dysgwyr o fewn pob canolfan.

Fodd bynnag, os yw'n ymddangos bod dyfarniadau graddio mewn rhai canolfannau yn fwy llym neu hael nag eraill, bydd CBAC yn addasu graddau rhai neu'r cyfan o'r dysgwyr hynny i fyny neu i lawr yn unol â hynny.

Cyfrinachedd
Fel canolfan, ni ddylech, o dan unrhyw amgylchiadau, rannu graddau asesu'r ganolfan na threfn restrol dysgwyr gyda dysgwyr, na'u rhieni na'u gofalwyr, nac unrhyw unigolion eraill y tu allan i'r ganolfan. Pwrpas hyn yw amddiffyn hygrededd dyfarniadau athrawon, ac osgoi rhoi athrawon, Penaethiaid Adrannau, uwch arweinwyr neu chi, fel Penaethiaid Canolfannau dan bwysau gan ddysgwyr a rhieni, i gyflwyno gradd nad yw'n cael ei chefnogi gan y dystiolaeth. Gan y gallai'r graddau terfynol ar gyfer rhai neu bob dysgwr fod yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd, mae hefyd yn helpu i reoli disgwyliadau dysgwyr.

Apeliadau
Mae'n bwysig ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud yn siŵr nad yw dysgwyr dan anfantais oherwydd yr amgylchiadau unigryw hyn. Fodd bynnag, ni fydd y trefniadau arferol ar gyfer adolygiadau o farcio ac apeliadau yn berthnasol. Rydym yn ystyried pa drefniadau y gellir eu rhoi ar waith i ganiatáu apêl effeithiol, gan gadw niferoedd a chymhlethdod apeliadau yn hylaw er mwyn osgoi oedi ac ansicrwydd i ddysgwyr.

Arholiadau yn yr hydref
Ni fydd gan Gymru gyfres arholiadau lawn ar gyfer yr hydref i ddysgwyr sy'n anfodlon â'r graddau a gyfrifwyd ar eu cyfer. Mae llawer o resymau dros hyn, gan gynnwys y tebygolrwydd y bydd y cyfyngiadau ynysu cymdeithasol i frwydro'r pandemig COVID-19 yn ailadrodd, y tarfu ar ddysgu a'r anfantais bosibl i ddysgwyr yr hydref hwn, ac adborth cryf gan y rhai yr ydym wedi ymgysylltu â hwy sy'n dweud mai'r flaenoriaeth yr hydref hwn fydd cael parhau â dysgu ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 11 a 13 y flwyddyn academaidd nesaf.
Bydd dysgwyr yng Nghymru nad ydynt yn teimlo bod y radd a gânt yn yr haf yn adlewyrchu'r radd y byddent wedi'i chael yn gallu sefyll yr arholiadau canlynol ym mis Tachwedd 2020: TGAU Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Chymraeg Iaith. Bydd arholiadau ar gyfer cymwysterau eraill ar gael yn haf 2021 fel arfer.

Cymwysterau cyffredinol, galwedigaethol a thechnegol eraill
Er bod y broses hon yn berthnasol i gymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau yn unig, rydym yn gweithio i wneud yn siŵr nad yw dysgwyr sy'n dilyn cymwysterau galwedigaethol neu dechnegol eraill o dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion yn yr un garfan. Byddwn yn darparu canllawiau pellach ar y cymwysterau hyn yn fuan.

Wrth gyfathrebu â dysgwyr, rhieni a gofalwyr, efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi eu cyfeirio at ein Cwestiynau Cyffredin yma. Rydym hefyd wedi ysgrifennu llythyr i'r dysgwyr yma i chi ei ddosbarthu er mwyn tawelu eu meddwl y byddwn ni, a CBAC, yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y graddau'n deg.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'ch tîm o athrawon proffesiynol am eich cymorth i wneud i'r broses hon weithio i'ch dysgwyr yn ystod cyfnod heriol iawn.

Yn gywir,

Philip Blaker
Prif Weithredwr
Cymwysterau Cymru